**STD(2) 02-05(05)**

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** **Dydd Iau, 10 Mawrth 2005**
**Amser:** **9:15am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Adolygiad Woodhouse – Cofrestru Cyfranddaliadau**

## Cefndir

1. Gwnaeth adroddiad Woodhouse yr argymhelliad canlynol:

   *Mae'r Pwyllgor yn ystyried diwygio'r gofyniad am gofrestru cyfranddaliadau yn unol naill ai ag argymhellion Ty'r Cyffredin neu Gynulliad Gogledd Iwerddon. (para 2.6.4).*

2. Mae dyfyniad o adroddiad Woodhouse yn nodi cefndir yr argymhelliad hwn yn Atodiad A. Fel y nodir yn y papur hwn, mae sefyllfa Ty'r Cyffredin wedi newid ers gwneud yr argymhelliad uchod ac nid yw sefyllfa Gogledd Iwerddon wedi datblygu fel y rhagwelwyd (o ganlyniad i'r ffaith bod Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi'i atal dros dro). Fodd bynnag, pery'r materion a godwyd gan yr argymhelliad yn ddilys.

### Y Sefyllfa Gyfredol yn y Cynulliad

3. Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestru cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod (naill ai ar ei ben ei hun, neu gyda neu ar ran ei bartner neu blant dibynnol) fuddiant sy'n golygu ei fod yn elwa mewn cyfranddaliadau o werth enwol sy'n fwy nag 1% o'r cyfalaf cyfrannu a ddyroddwyd neu, os yw'n llai nag 1%, lle mae gwerth y cyfranddaliadau hynny'n fwy na £25,000.

4. Gan mai dim ond at y gwerthoedd enwol y mae'r Canllawiau'n cyfeirio atynt, mae'n ddigwestiwn nad oes gofyniad i Aelodau ddiweddaru eu cofnodion ar y Gofrestr pan fo gwerth cyfranddaliadau'n cynyddu neu'n lleihau ar y farchnad. Fodd bynnag, ni fyddem yn ceisio annog Aelodau i beidio â chofrestru cyfranddaliadau lle bo'r gwerth enwol yn is na'r trothwy ond bod gwerth y farchnad yn uwch.

5. Nid yw'r Canllawiau yn nodi a yw'r gofyniad i Gofrestru yn berthnasol adeg caffael neu adeg cofrestru'r cyfranddaliadau. Eto, gan mai dim ond at werthoedd enwol y mae'r Rheol Sefydlog a'r canllawiau yn cyfeirio atynt, mae'r gofyniad wedi'i ddehongli fel petai'n briodol adeg caffael. (Hynny yw, rhaid cofrestru cyfranddaliadau sydd werth mwy na'r cyfranddaliadau gofynnol hyd yn oed os oeddent ym meddiant yr Aelod cyn iddo gael ei ethol).

### Y Sefyllfa mewn mannau eraill

6. Mae gan bob corff deddfu reolau ychydig yn wahanol ar gyfer cofrestru cyfranddaliadau ond mae'n bosibl gwneud cymariaethau eithaf uniongyrchol. Mae'r Tabl isod yn cymharu sefyllfa'r Cynulliad Cenedlaethol â'r sefyllfa yng nghyrff deddfu eraill y DU:

| Corff Deddfu | % y Cyfalaf Cyfrannau | Gwerth Cyfranddali-adau | Gwerth Enwol neu Werth y Farchnad? | Cofrestru adeg Caffael? | Angen Diweddaru'n Flynyddol? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Ty'r Cyffredin | 15% | £57,485 (gwerth cyflog AS) | Marchnad | Ie | Oes – 5 Ebrill |
| Senedd yr Alban | 1% | £25,000 | Enwol | Ie | Oes – 5 Ebrill |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 1% | £25,000 | Enwol | Ie | Nac oes |
| **Y Cynulliad Cenedlaethol** | **1%** | **£25,000** | **Enwol** | **Ie** | **Nac oes** |

### Canran Cyfalaf Cyfrannau a Ddyroddwyd

7. Ar wahân i San Steffan, mae pob un o gyrff deddfu'r DU yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestru cyfranddaliadau sydd werth mwy nag un y cant o gyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd y cwmni dan sylw. Nid yw'r rheswm dros y trothwy llawer uwch o 15% yn San Steffan yn amlwg ond gall helpu i osgoi'r angen i gofrestru cyfranddaliadau gyda gwerth enwol neu werth isel iawn ar y farchnad. Fodd bynnag, rydym wedi dod ar draws ambell broblem benodol yn y maes hwn ac o ystyried hyn, ymddengys nad oes achos i newid ein gofynion cyfredol.

### Gwerth Cyfranddaliadau

8. Mae San Steffan eto wedi mabwysiadu trothwy ychydig yn wahanol i drothwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn seilieig ar ffigur sy'n gyfwerth â chyflog blynyddol AS (£57,485). Fodd bynnag, fel yr eglura adolygiad Woodhouse, roedd Cynulliad Gogledd Iwerddon, cyn ei atal dros dro, yn ystyried symud at drothwy sy'n seiliedig ar ganran (50%) o gyflog Aelod, yn hytrach na'r ffigur cyfradd safonol cyfredol. Pe mabwysiedir ef, byddai dull San Steffan yn arwain at derfyn yma o thua £43,000, tra byddai dull Gogledd Iwerddon yn arwain at drothwy o thua £21,500 - ffigur sy'n sylweddol is na'r trothwy cyfredol.

9. Eto, nid ydym wedi dod ar draws unrhyw broblemau penodol gyda'r terfyn cyfredol o £25,000. Ni fyddai'n rhaid adolygu trothwy sydd ynghlwm wrth gyflogau Aelodau mor rheolaidd â'r trothwy cyfradd safonol gan y byddai'n newid gyda chwyddiant ond byddai'n llai tryloyw na'r trefniadau cyfredol. Gan fod ein trothwy, yn gyffredinol, yn unol â sefydliadau y gellir cymharu â hwy, nid yw swyddogion yn gweld unrhyw alw mawr i newid ein rheolau cyfredol.

### Gwerth Enwol neu Werth y Farchnad

10. Dim ond San Steffan sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru yn seiliedig ar werth y farchnad (wedi'i gyfrifo yn unol â gwerth y farchnad ar y 5 Ebrill sy'n rhagflaenu). Fodd bynnag, cymerir i ystyriaeth pan nad oes modd cael gafael ar werth y farchnad (e.e. os bydd y cwmni'n annyfynedig ac nad oes marchnad yn y cyfranddaliadau). Yn yr achosion hyn, defnyddir gwerth enwol y cyfranddaliadau yn ei le. Mantais y dull hwn o weithio yw bod y Gofrestr yn adlewyrchu gwerth gwirioneddol cyfranddaliadau'r Gofrestr yn well.

11. Mewn mannau eraill, gan gynnwys yn y Cynulliad Cenedlaethol, defnyddir gwerthoedd enwol er bod y rheolau ychydig yn wahanol o ran sut y cyfrifir hyn. (Er enghraifft, yn yr Alban, cyfrifir y gwerth enwol gyda chyfeiriad at ddaliadau ar 5 Ebrill bob blwyddyn, ond yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon, defnyddir dyddiad caffael y cyfranddaliadau sy'n mynd heibio i'r trothwyon.) Gall hyn fod yn symlach i Aelodau ond mae'n eu gadael yn agored i feirniadaeth nad yw cyfranddaliadau sylweddol iawn wedi'u cofrestru yn syml am eu bod yn is na'r trothwyon adeg y caffael. O ganlyniad, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried a ddylai dull y Cynulliad fod yn seiliedig ar werthoedd y farchnad wrth gofrestru yn y dyfodol.

**Y Diweddaraf am Werth y Farchnad**

12. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno y dylai cofrestru fod yn seiliedig ar werthoedd y farchnad, yna ceir dadl gref o blaid cael gofyniad i ddiweddaru gwerth cyfranddaliadau a gofrestrir yn rheolaidd. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y cyhoedd ddarlun cyn gliried ag sy'n bosibl o gyfranddaliadau sylweddol Aelodau.

13. Byddai'r gofyniad blynyddol yn unol ag arfer San Steffan (ac mewn modd ychydig yn wahanol, i'r Alban) ac ni ddylai fod yn afresymol o feichus ar gyfer Aelodau. Mae'r dyddiad o 5 Ebrill a ddefnyddir mewn mannau eraill yn cynnig ei hun gan ei fod yn cyd-fynd â diwedd y flwyddyn dreth pan fo'n bosibl bod Aelodau wrthi'n cyfrifo gwerth cyfranddaliadau at ddibenion treth beth bynnag.

**Argymhellion**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i:

    i. Gytuno y dylid cadw'r trothwy cyfredol o 1% ar gyfer cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd neu gwerth o £25,000;

    ii. Ystyried a ddylai cofrestru fod yn seiliedig ar werth enwol cyfranddaliadau neu eu gwerth ar y farchnad yn y dyfodol; ac

    iii. Ystyried a ddylai fod yn ofynnol i Aelodau ddiweddaru gwerth eu cyfranddaliadau ar y farchnad bob blwyddyn.

15. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn drafftio unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r canllawiau i adlewyrchu penderfyniadau'r Pwyllgor a bydd yn gwneud trefniadau i'r rhain gael eu trafod mewn Cyfarfod Llawn.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad** **Mawrth 2005**

**ATODIAD A**

## DYFYNIAD O ADRODDIAD WOODHOUSE

2.6.1 Gallai'r Pwyllgor fod â diddordeb hefyd yn yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Tŷ Cyffredin a Gogledd Iwerddon ar Safonau a Breintiau ynghylch cyfrannau. Y gofyniad cyfredol yw fod angen cofrestru pan fo'r gwerth enwol yn fwy na 1% o'r cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd neu, os yw yn llai, 'lle mae gwerth y cyfrannau hyn yn fwy na £25,000'. Argymhellodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y dylai'r gofyniad am gofrestru gael ei newid yn yr ail gategori hwn i ble bo'r gwerth 'yn fwy ar adeg y caffael na'r cyflog seneddol cyfredol,[14] tra'r awgrymodd Pwyllgor Gogledd Iwerddon y dylai gael ei newid i ble mae'r gwerth yn gwneud cyfanswm o '50% neu fwy o gyflog cyfredol Aelod o'r Cynulliad.[15] Ceir gwahaniaethau yn yr argymhellion hyn sy'n mynd y tu hwnt i werth y cyfrannau, fel y mae'n ymwneud â chyflog Aelod. Mae argymhelliad Tŷ'r Cyffredin yn ymwneud â'r gwerth ar adeg y prynu ac nid yw felly yn gwneud unrhyw lwfansau ar gyfer cyfrannau yn cynyddu, neu yn gostwng, mewn gwerth, tra bo argymhelliad Gogledd Iwerddon yn ymwneud â'r gwerth adeg y cofrestru. Y naill ffordd neu'r llall, gall y Pwyllgor Safonau ddymuno ystyried ailedrych ar y gofynion yn ymwneud â chofrestru cyfranddaliadau.

**Argymhellion:** Mae'r Pwyllgor yn ystyried diwygio'r gofyniad am gofrestru cyfranddaliadau yn unol naill ai ag argymhellion Tŷ'r Cyffredin neu Gynulliad Gogledd Iwerddon.

[14] Pwyllgor ar Safonau a Breintiau (2000-01) HC 267
[15] Pwyllgor ar Safonau a Breintiau (2002) 2/01r, para 53